Syrthiodd ar lawr, a chlywodd lais yn dweud wrtho, “Saul, Saul, pam yr wyt yn fy erlid i?” Dywedodd yntau, “Pwy wyt ti, Arglwydd?” Ac ebe’r llais, “Iesu wyf fi, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid.”
(Actau 9:4-5)

Dyma eiriau gan Iesu ar ôl iddo esgyn i’r nef. Mae’r geiriau hyn yn rhyfeddol am nifer o resymau. Dyma alwad nefol i ddofi gelyn, ei ddallu, a’i alw’n bersonol ac mewn ffordd rasol iawn i fod yn ddisgybl ac yn apostol i Iesu Grist.

Galw gelyn.

Sut mae trin gelyn creulon a chaled? Dyna oedd Saul. Roedd wedi cytuno i ladd Steffan ac wedi edrych ar ôl dillad y rhai oedd yn ei labyddio. Roedd yn fygythiol yn erbyn y Ffydd. Roedd yn bwriadu carcharu a bygwth Cristnogion Damascus. Ei nod, mae’n debyg, oedd torri eu hysbryd a’u gorfodi i wadu Crist a throi cefn ar y Ffordd.

Yr hyn sy’n digwydd, fodd bynnag, trwy ras Duw, yw mai Saul sydd yn cael ei dorri i lawr, ef sydd yn gadael ei ffordd o fyw a’i wrthwynebiad i Grist, ef sydd yn dod yn greadigaeth newydd ac yn apostol Iesu Grist.

Mae’n amlwg bod y Cristnogion yn ofni Saul. Roedd Ananias yn amheus iawn o ddoethineb y syniad o fynd yn agos at hwn. Pan gyrhaeddodd Saul Jerwsalem nes ymlaen, yr oedd pawb yn yr eglwys yn ei ofni. Roedd raid i Barnabas fod yn gyswllt rhyngddo a’r apostolion eraill.

Dallu gelyn

Dyma’r Pharisead pybyr oedd â gweledigaeth glir i roi stop ar sect y Nasaread yn ei gael ei hunan yn ddall. Roedd wedi cynllunio’i strategaeth yn dda, ac roedd carcharu Cristnogion Damascus yn gam pwysig iddo. Nawr, roedd yn cael ei arwain gerfydd ei law, heb wybod beth oedd y cam nesaf nes iddo gyrraedd Damascus, a nes i Ananias ddwyn neges bellach gan Grist iddo. Roedd yr erlidiwr hyderus a nerthol wedi ei droi’n ddilynwr gwan oherwydd iddo golli ei olwg.

Galwad bersonol

Er nad yw Saul yn nabod y person tu ôl i’r llais, mae’r person yn ei nabod ef wrth ei enw. Mae Iesu’n dangos ei fod nid yn unig yn gwybod pwy yw Saul o ran ei enw, ond mae’n gwybod hefyd beth yw natur ei daith, a beth yw cyflwr ei feddwl. Mae’n gwybod ei fod yn erlid y saint. Mae’n gwybod beth yw’r tyndra

mawr sydd y tu mewn i'r Iddew penboeth yma. Mae'n anwybyddu cydwybod. Er iddo weld Steffan yn marw'n ogoneddus, mae'n benderfynol o fynd ymlaen â'r erledigaeth.

Galwad i wasanaeth

Yna mae Saul yn cael ei gonsgriptio i wasanaeth y Crist. Mae'n cael ei feddiannu gan Frenin y brenhinoedd. Mae'n cael ei dynnu o feddiant Satan at Dduw ac mae'n cael gwŷs i fod yn gyfrwng i arwain eraill i'r un profiad. Mae gan Iesu bwrpas newydd i'w fywyd a chyfeiriad newydd i'w egni a'i ddoniau. Pwy fuasai wedi rhagweld mai hwn fyddai un o brif gyfryngau Duw i ddwyn yr Efengyl i diroedd newydd am y tro cyntaf? Nid eglwys Jerwsalem yn sicr. Dyma esiampl hyfryd o ras Duw. Pam Saul? Pam yr erlidiwr creulon yma? Pam na fyddai Duw yn ei daro i lawr yn farw am ei wrthwynebiad ffyrnig?

Gallem hefyd ofyn, Pam y carodd Duw fyd mor ddrwg a gwrthwynebus? Pam y daeth Crist i farw dros rai mor annheilwng? Pam y cefais i faddeuant a meddyginiaeth y Meddyg mawr?

Diolchaf mwy am brofi'i ras –
pam fi? Ni wn, ond dyma'i rodd;
ni wneuthum ddim i haeddu hyn –
ei aberth ef a'm prynodd.

Dyma beth yw gras Duw! Mae'n rhodd nad ydym yn ei haeddu na'i ennill. Mae'n fendigedig!

Neges bwysig

Mae troedigaeth Saul yn dwyn neges bwysig i ni heddiw. Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus rhag meddwl na fydd person, sy'n wrthwynebus ar hyn o bryd, yn dod at Grist. Mae'n bwysig nad oes gennym focs yn ein meddwl ar gyfer pobl nad oes gobaith iddynt. Gall hyn fod oherwydd ein hofn ohonynt neu'n hymdeimlad o arswyd wrth feddwl am eu pechodau mawr.

Os gwnaethpwyd Manasse ddu yn wyn, os daeth y masnachwr caethweision garw John Newton yn weinidog yr Efengyl ac yn awdur toreithiog emynau eneiniedig, mae gobaith i unrhyw un ddod at y Goleuni, ac mae rheswm i ni weddïo dros y pechaduriaid mwyaf caled yn ein golwg.

Dŷn ni ddim yn gwybod pwy fydd nesaf i ymuno â rhengoedd y Crist yng Nghymru.

Gras gynt a drefnodd ffordd
i gadw euog fyd;
llaw gras a welir ymhob rhan
o'r ddyfais hon i gyd." (Philip Doddridge, cyf. Gomer).